Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Dana Evans**

**Llandysul**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 7 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Mai 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn gyfforddus, yn hyderus ac yn fodlon yng ngofal y gwarchodwr plant. Maent yn gwybod bod y gwarchodwr plant yn gwrando arnynt ac maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant ac eraill. Maent yn cael cyfleoedd cadarnhaol i feithrin eu sgiliau unigol, drwy weithgareddau chwarae hunangyfeiriedig.

Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau da i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n rhyngweithio â'r plant â chynhesrwydd gwirioneddol ac yn cynllunio'r gofal yn dda er mwyn diwallu anghenion unigol y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn frwdfrydig am ei rôl i helpu'r plant i ddatblygu.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr eiddo yn gynnes, yn groesawgar ac yn gyfforddus. Mae'n defnyddio systemau priodol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd da ar gael i'r plant, sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygu.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain a'i oruchwylio'n briodol. Mae'r gwarchodwr plant yn drefnus ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad. Mae'n ymrwymedig i ddarparu polisïau a gweithdrefnau sy'n ei gwneud yn bosibl i'r plant gael gofal da. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth foddhaol o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Rheoliadau. Mae'n sicrhau bod hyfforddiant gorfodol ar waith ac yn ymrwymedig i wella'n barhaus.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hanghenion a'u hwyliau'n cael eu hystyried yn gyson. Gallant ddewis eu gweithgareddau chwarae ac maent yn cael digon o amser i wneud penderfyniadau. Er enghraifft, roedd un plentyn am ymlacio am gyfnod cyn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd chwarae, a chafodd hyn ei gydnabod. Maent yn mynegi eu dewisiadau a'u dymuniadau yn hyderus, ar lafar ac ar ffurf ddieiriau, ac yn cael ymateb cyson gadarnhaol. Maent yn gwybod y bydd y gwarchodwr plant yn gwrando arnynt pan fyddant yn pwyntio at yr hyn y mae arnynt ei eisiau neu'n gofyn cwestiynau gan ddefnyddio eu sgiliau cyfathrebu sy'n datblygu.

Mae gan y plant lais cryf. Maent yn gwneud dewisiadau ac mae'r gwarchodwr plant yn gwrando ar eu penderfyniadau. Er enghraifft, yn ystod amser cinio, mynegodd y plant yn glir pan oeddent wedi cael digon i'w fwyta. Maent yn gwybod bod y gwarchodwr plant yn parchu eu dewisiadau a bod eu dymuniadau'n cael eu hystyried. Maent yn hapus i fynd at y gwarchodwr plant i gael cymorth wrth chwarae. Er enghraifft, gofynnodd plentyn am help gan y gwarchodwr plant i roi darnau'r jig-so yn y llyfr.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda. Gwelsom un plentyn yn cydymdeimlo â phlentyn arall ar ôl iddo gwympo ar y llawr. Maent yn cydweithio wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau, er enghraifft yn helpu ei gilydd i roi darnau jig-so yn eu lle. Mae'r plant yn dangos rhywfaint o ddiddordeb yn eu chwarae a'u dysgu, er enghraifft cyfrif nifer y ceir wrth iddynt chwarae. Mae gan y plant gydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant, gan symud yn agos ati ar y soffa a chodi eu breichiau i gael maldod. Yn ystod cyfnodau chwarae rhydd, mae'r plant yn ymgysylltu â'r gwarchodwr plant yn hyderus, er enghraifft yn dweud wrth y gwarchodwr plant am wisgo'r doli drostynt. Mae'r plant yn cael cyfleoedd priodol i chwarae a dysgu sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain yn hyderus. Gwelsom luniau o weithgareddau yn hyrwyddo chwarae synhwyraidd, gweithgareddau crefft, gweithgareddau coginio, teithiau cerdded yn yr ardal leol, yn ogystal ag ymweliadau â chanolfannau chwarae meddal lleol.

Mae'r plant yn datblygu lefelau da o hyder a hunan-barch. Dychwelodd plentyn bach ei bowlen yn hyderus i sinc y gegin ar ôl bwyta ei ginio a chafodd ei ganmol am wneud hynny. Mae'r plant yn ymwybodol iawn o'r drefn o ddydd i ddydd, er enghraifft maent yn mynd i'r ystafell ymolchi i olchi eu dwylo cyn cinio. Mae'r plant yn meithrin sgiliau annibyniaeth da, gan gasglu adnoddau'n annibynnol o'r ystafell chwarae, cario eu cadair eu hunain a'i rhoi mewn ardal chwarae o'u dewis, bwydo eu hunain yn ogystal â sychu eu dwylo a'u hwynebau eu hunain ar ôl gorffen bwyta. Maent yn croesawu cymorth gan y gwarchodwr plant pan fo angen.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant a'r plant yn gadarnhaol ac yn ofalgar, a chlywsom y gwarchodwr plant yn dweud, *‘Good girl yn helpu’ (‘Good girl helping’).* Mae'n dathlu cyflawniadau'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn fodel rôl da ac yn annog cyfathrebu cadarnhaol a rhannu rhwng y plant. Er enghraifft, anogodd y plant i rannu'r doliau a darparodd gadair wthio ychwanegol i'r plant a oedd am gael yr un gadair wthio fach.

Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau priodol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar gymorth cyntaf pediatrig, hylendid bwyd a diogelu plant. Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau hylendid priodol, gan sicrhau bod yr holl arwynebau yn cael eu diheintio cyn amseroedd bwyd, ac mae'n golchi ei dwylo cyn paratoi bwyd i'r plant. Mae'n sicrhau bod pob plentyn wedi golchi ei ddwylo cyn bwyta. Mae'r rhieni'n darparu bwyd i'r plant ac mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y bwyd yn cael ei storio'n briodol. Mae polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer newid cewynnau ac mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gan bob plentyn ei fat newid cewynnau ei hun fel haen waelod ar ben y prif fat newid cewynnau. Fodd bynnag, nid oedd y gwarchodwr plant yn defnyddio cyfarpar diogelu personol wrth newid cewynnau ac nid oedd y prif fat newid cewynnau a ddefnyddiwyd fel haen waelod yn cael ei ddiheintio ar ôl newid cewyn plentyn. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod cyfarpar diogelu personol ar gael iddi ei ddefnyddio wrth newid cewynnau budr iawn.

Mae gan y gwarchodwr plant wybodaeth a dealltwriaeth dda o weithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant. Rhoddodd atebion effeithiol i senarios posibl ac mae'n deall yn llawn ei chyfrifoldeb i ddiogelu'r plant a diwallu eu hanghenion lles. Cofnodir damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth ac mae'r gwarchodwr plant a rhieni neu ofalwyr yn eu llofnodi. Gwnaethom drafod cofnodi anafiadau sy'n bodoli eisoes â'r gwarchodwr plant a dywedodd wrthym y byddai'r rhain yn cael eu cofnodi pe baent yn codi. Mae gan y gwarchodwr plant ymwybyddiaeth dda o anghenion deietegol, anoddefiadau a dewisiadau'r plant ac mae'n gweithredu arnynt fel y bo'n briodol. Mae'n sicrhau bod dŵr yfed ar gael i'r plant drwy gydol eu hamser yn y lleoliad. Yn ystod yr ymweliad, defnyddiodd y gwarchodwr plant y ficrodon i gynhesu potel laeth plentyn a chafodd y plentyn ei fwydo tra roedd wedi'i strapio mewn cadair wthio, yn unol â chais y rhieni. Gwnaethom drafod gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol mewn perthynas â hyn. Mae'n sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i fynd allan i'r awyr agored, ond nid aethant allan i'r ardal awyr agored yn ystod yr ymweliad arolygu.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn ddigonol. Mae'n cadw cofnod ysgrifenedig sylfaenol o ddatblygiad y plant. Fodd bynnag, nid yw'n cadw cynllun ysgrifenedig o weithgareddau yn unol â'u camau datblygu. Mae'n hyrwyddo

‘chwarae rhydd’ a ‘chwarae yn y foment’ lle mae'n ystyried syniadau'r plant ar gyfer gweithgareddau crefft a chyfleoedd pobi a'u dewisiadau o ran themâu a theganau tymhorol. Mae rhai gweithgareddau'n cynnwys pobi ac addurno bisgedi a gweithgareddau crefft tymhorol. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydol y dydd drwy sgwrsio, canu a defnyddio adnoddau fel llyfrau.

| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y gwarchodwr plant fesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel. Mae'n sicrhau bod y drysau wedi'u cloi yn ystod oriau gwarchod plant ac mai dim ond y plant all fynd i'r ardal ar y llawr gwaelod. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn cynnal archwiliad gweledol bob dydd cyn i'r plant gyrraedd. Mae'n sicrhau bod asesiadau risg amgylcheddol ar waith a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag nid oedd unrhyw asesiad risg ar waith ar gyfer y ci anwes nac ar gyfer hebrwng plant i'r ysgol ac oddi yno a gwibdeithiau. Aethpwyd i'r afael â hyn yn syth ar ôl yr ymweliad a chawsom gopi o asesiadau risg a oedd yn dangos bod unrhyw risgiau'n cael eu dileu cymaint â phosibl. Yn ystod yr arolygiad, cafodd y ci yn y lleoliad ei gadw ar wahân i'r plant a chadarnhaodd y gwarchodwr plant fod brechiadau'n cael eu diweddaru a'u cofnodi. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod archwiliadau cynnal a chadw ar gyfer y cartref yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi. Cedwir cofnod o wiriadau diogelwch tân ac ymarferion tân, ond nid yw'r cofnodion ymarferion tân cyfredol yn cynnwys amser yr ymarfer tân gwirioneddol. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod o ymwelwyr â'r lleoliad. Nid oes unrhyw gemegau niweidiol, sylweddau glanhau na phowlenni cŵn yn yr ardaloedd sy'n hygyrch i'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr eiddo yn gynnes, yn gyfforddus ac yn groesawgar i'r plant. Mae'r ardal chwarae a bwyta yn fan lle y gall y plant ymlacio, bwyta a chymdeithasu. Mae sawl blwch adnoddau ar gael i'r plant ar lefel isel ac uchel. Ceir toiled ar y llawr gwaelod, gyda sebon hylif, tywelion papur, potiau a gris er mwyn helpu'r plant i gyrraedd y sinc. Gall y plant fynd i mewn i'r gegin yn ystod amser bwyd. Fodd bynnag, caiff y plant eu goruchwylio'n briodol am fod y gegin gerllaw ardal chwarae a dysgu'r plant. Mae'r ardal dan do yn fawr ac mae byrddau a chadeiriau addas ar gael ar gyfer gweithgareddau bwrdd a chyfleoedd bwyta ar gyfer oedrannau'r plant sy'n bresennol. Defnyddir y patio yn yr ardal awyr agored y tu ôl i'r tŷ yn ystod oriau gwarchod plant, lle y ceir cegin fwd, teganau reidio ac adnoddau chwarae eraill. Mae lefel uchaf yr ardd wrthi'n cael ei datblygu ymhellach.

Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu'r adnoddau yn dda Mae amrywiaeth o adnoddau o ansawdd da ar gael i'r plant. Er enghraifft, ceir teganau byd bach, posau, adnoddau chwarae rôl yn y gegin, llyfrau, crefftau a theganau adeiladu. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr holl deganau ac adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'n cadw cofnod ysgrifenedig sy'n nodi pryd y caiff teganau ac adnoddau eu glanhau a'u sterileiddio. Mae gan y gwarchodwr plant rai adnoddau sy’n hyrwyddo gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth a dealltwriaeth ohonynt.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol |
| --- | --- |

Mae'r gwarchodwr plant yn drefnus ac mae ganddi ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau i ddarparu gofal effeithiol a da i'r plant. Mae'n sicrhau bod y rhan fwyaf o ganiatadau wedi'u sicrhau ar gyfer plant sy'n mynychu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ganiatâd ar gyfer rhyngweithio â'r ci. Cymerwyd camau i unioni hyn yn syth ar ôl yr ymweliad. Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau sy'n cynnwys y canllawiau diweddaraf. Yn dilyn yr ymweliad, cawsom gopi o gynllun gweithredol wedi'i ddiweddaru, polisi a gweithdrefn ar gyfer y Ddyletswydd Atal, datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru yn cynnwys gwybodaeth am arferion a chyfleusterau, a pholisi wedi'i ddiweddaru ar gyfer anghenion ychwanegol. Mae gan y gwarchodwr plant dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar ei chyfer ei hun. Fodd bynnag, nid yw un aelod o'r cartref yn meddu ar wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd nac yn ymddangos fel unigolyn a enwir ar gofnod gwasanaeth y gwarchodwr plant. Nodwyd hyn fel maes i'w wella. Mae'r gwarchodwr plant wedi cymryd camau ar unwaith mewn perthynas â hyn ac wedi darparu tystiolaeth o wiriadau parhaus gan y Gwarchodwr Datgelu a Gwahardd. Mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys ar waith yn ogystal ag yswiriant car. Mae'r cofnodion yn dangos bod presenoldeb y plant yn cael ei gofnodi'n llwyddiannus.

Mae'r gwarchodwr plant wedi ysgrifennu adolygiad o ansawdd y gofal ar gyfer y lleoliad, sy'n llawn gwybodaeth. Mae'n ceisio adborth gan y rhieni a'r plant er mwyn datblygu'r trefniadau ar gyfer rhedeg y lleoliad yn y dyfodol. Mae'r gwarchodwr plant yn ymarferydd gofal plant profiadol sy'n sicrhau bod hyfforddiant gorfodol wedi'i ymgorffori. Weithiau, mae'r gwarchodwr plant yn cael hyfforddiant ychwanegol er mwyn gwella a datblygu ei nodau datblygiad personol ei hun.

Mae partneriaethau da ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ymweld â'r ardal leol, gan gynnwys canolfannau chwarae meddal. Mae hefyd yn gollwng plant yn yr ysgol leol ac yn eu casglu oddi yno. Mae'n ymgysylltu â'r rhieni ar lafar yn ogystal â chwblhau cofnod dyddiol ysgrifenedig ar gyfer pob plentyn. Ni chawsom unrhyw adborth gan y rhieni fel rhan o'r broses arolygu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 20 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod gwiriad wedi'i gynnal gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer aelod o'r cartref sy'n 18 oed ac nid yw wedi ychwanegu'r person at y cofnod fel aelod o staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 12 - Bwyd a diod | Sicrhau bod plant yn cael eu dal wrth eu bwydo o botel. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cynllunio i hyrwyddo datblygiad. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod cyfleoedd ac adnoddau'n cael eu darparu i wella dealltwriaeth y plant o amlddiwylliannaeth ac amrywiaeth ymhellach. |
| Sicrhau arferion hylendid da wrth newid cewynnau a pharatoi bwyd drwy ddefnyddio cyfarpar diogelu personol. |
| Sichau y caiff poteli llaeth eu cynhesu'n ddiogel a bod bwyd ar y tymheredd cywir cyn ei roi i'r plant. |
| Sicrhau y caiff cofnod ysgrifenedig ei gadw sy'n nodi pryd y caiff teganau ac adnoddau eu glanhau a'u sterileiddio. |
| Sicrhau bod y cofnodion ymarferion tân yn cynnwys digon o fanylion. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/05/2024